

**Adar o Bryder  
Cadwraethol  
yng Nghymru**

**Birds of  
Conservation  
Concern Wales**



Rooks

Ben Andrew (rspb-images.com)

## Gweithio mewn partneriaeth

### Working in partnership



Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales



Welsh  
Ornithological  
Society

Cymdeithas  
Adaryddol  
Cymru

## Cymeradwywyd gan

### Endorsed by



Ymddiriedolaeth  
Genedlaethol  
**National Trust**




RBBP  
Rare Breeding Birds Panel



**WWT**



Ymddiriedolaethau Natur  
**Cymru**  
Wildlife Trusts  
Wales



Manx shearwater  
Greg Morgan

## Cyflwyniad

Mae cyrff cadwraeth adar blaenllaw wedi gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i adolygu statws adar yng Nghymru. Mae'r adolygiad gwladol hwn yn ategu adroddiad Adar o Bryder Cadwraethol 5, sy'n ymdrin â'r DU gyfan, a gyhoeddwyd yn 2021.

Aseswyd adar sy'n bridio, yn gaeafu neu'n mudo'n rheolaidd drwy Gymru yn erbyn set o feini prawf gwrthrychol, gan ddefnyddio data a gasglwyd trwy gynlluniau monitro adar sefydledig a mentrau gwyddoniaeth dinasyddion. Rhoddwyd pob rhywogaeth ar y rhestr Werdd, Oren neu Goch, i gyfleu lefel gynyddol o bryder cadwraethol.

Mae'r asesiad yn defnyddio, cyn belled ag y bo modd, data lefel Cymru i feintioli tueddiadau hanesyddol a mwy diweddar ym mhoblogaeth ac ystod pob rhywogaeth, yn ogystal â maint ei phoblogaeth bresennol, ei dosbarthiad lleol a'i phwysigrwydd rhyngwladol. Ystyriwyd hefyd statws cadwraeth pob rhywogaeth ar lefel y DU, Ewropeaidd a byd-eang.

Aseswyd cyfanswm o 220 o rywogaethau, 10 yn fwy nag yn yr asesiad diwethaf yn 2016. Mae tair rhywogaeth nad oeddent bellach yn gymwys i'w hasesu: mae Bras yr Ŷd a Rhegen yr Ŷd wedi diflannu fel adar sy'n nythu yng Nghymru ac, ynghyd â'r Wyach Yddfgoch, nid ydynt bellach yn bresennol mewn niferoedd digonol iddynt gael eu hasesu yn yr adroddiad.

Aseswyd 14 o rywogaethau na aseswyd yn 2016. Mae hyn naill ai oherwydd bod data ar gael ar gyfer mwy o rywogaethau nag o'r blaen neu oherwydd bod sawl rhywogaeth, a oedd yn brin yn y gorffennol, i'w gweld yn amlach yng Nghymru.

## Introduction

Leading bird conservation organisations have worked with Natural Resources Wales (NRW) to review the status of birds in Wales. This country review complements Birds of Conservation Concern 5, which covers the whole of the UK, published in 2021.

Birds that breed, winter or migrate regularly through Wales were assessed against a set of objective criteria, drawing on data collated through established bird monitoring schemes and citizen science initiatives. Each species was placed on the Green, Amber or Red List, indicating an increasing level of conservation concern.

The assessment uses Wales-level data, so far as possible, to quantify historic and more recent trends in the population and range of each species, as well as its current population size, localised distribution and international importance. The UK, European and global conservation status of each species was also considered.

A total of 220 species was assessed, 10 more than in the last assessment in 2016. Three species no longer qualified for assessment: Corn Bunting and Corncrake have been declared extinct as breeding birds in Wales, and along with Red-necked Grebe, no longer occur in sufficient numbers to qualify.

There were 14 species assessed that were not in 2016. This is either because data is available for a greater number of species or because several formerly scarce species have become more frequent visitors to Wales.




Meadow pipit


Tim Hunt (rspb-images.com)

# Canlyniadau asesu


## Assessment results




Yn seiliedig ar  
asesiad o 220 o  
rywogaethau  
Based on an  
assessment of  
220 species



Yn seiliedig ar  
asesiad o 212 o  
rywogaethau  
Based on an  
assessment of  
212 species



Yn seiliedig ar  
asesiad o 210 o  
rywogaethau  
Based on an  
assessment of  
210 species



Yn seiliedig ar  
asesiad o 220 o  
rywogaethau  
Based on an  
assessment of  
220 species

Mae 60 o rywogaethau ar y rhestr Goch, 91 ar y Rhestr Ambr a 69 ar y Rhestr Werdd. Mae'r Rhestr Goch wedi cynyddu o bwmper ers yr adolygiad diwethaf yn 2016; mae tair rhywogaeth wedi symud o'r Rhestr Werdd i'r Rhestr Goch, 10 o Ambr i Goch ac mae un rhywogaeth ar y Rhestr Goch a oedd heb ei hasesuo'r blaen.

Mae saith rhywogaeth a oedd ar y Ghestr Goch flaenorol wedi'i symud i'r Rhestr Ambr, a 14 o'r Rhestr Ambr i'r un Werdd. Mae dwy rywogaeth wedi eu datgan yn ddiflanedig yng Nghymru ers yr asesiad diwethaf, gan eu bod heb nythu yng Nghymru ers 20 mlynedd.

Defnyddiodd yr asesiad ganlyniadau'r arolygon diweddaraf ar gyfer adar y môr sy'n nythu yng Nghymru, ond gallai cyhoeddi canlyniadau cyfrifiad adar y môr y DU yn 2023 arwain at newidiadau. Cynhaliwyd yr arolygon hynny cyn i effaith ffliw adar daro nythfeydd adar y môr yn ystod haf 2022.

There are 60 species on the Red List, 91 on the Amber List and 69 on the Green List. The Red List has grown by five since the last review in 2016: three species have moved from Green to Red, 10 from Amber to Red and one species has been Red-listed having not been assessed previously.

Seven previously Red-listed species have been moved to the Amber List, and 14 from Amber to Green. Two species have been declared extinct in Wales since the last assessment, having not bred in Wales for 20 years.

The assessment used the most recent survey results for Welsh breeding seabirds, but the publication of the UK seabird census results in 2023 may lead to subsequent changes. Those surveys were undertaken before the impact of avian influenza was felt in seabird colonies in summer 2022.

## Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru – y Rhestr Goch

Aderyn Drycin Balearig	Gwennol Ddu
Aderyn y Bwn	Gwyach Gorniog
Alarch Bewick	Gwybedog Mannog
Boda Mêl	Gwydd Dalcen-wen
Boda Tinwyn	Gwylan Benddu
Bras Melyn	Gwylan Gefnddu Leiaf
Carfil Bach	Gwylan Goesddu
Cnocell Fraith Fach	Gwylan Penwaig
Cog	Gylfinir
Corhedydd y Coed	Hwyaden Bengoch
Corhedydd y Waun	Hwyaden Frongoch
Cornchwiglen	Hwyaden Gynffonhir
Crec yr Eithin	Hwyaden yr Eithin
Cudyll Bach	Llinos
Cudyll Coch	Llinos Werdd
Cwtiad Aur	Llwydfron
Cwtiad Llwyd	Môr-hwyaden y Gogledd
Cwtiad Torchog	Môr-wennol Fach
Cyffylog	Môr-wennol Wridog
Drudwen	Môr-wennol y Gogledd
Dryw Eurben	Mwyalchen y Mynydd
Golfan y Mynydd	Pâl
Grugiar Ddu	Pedrynn-Drycin
Grugiar Goch	Pedrynn Cynffon-fforchog

## Adar o Bryder Cadwraethol yng Nghymru – y Rhestr Ambr

Pibydd Coesgoch	Aderyn Drycin Manaw	Gîach Fach	Ji-binc	Sgiwen Frech
Pibydd Du	Aderyn Drycin y Graig	Gîach	Llinos Bengoch Leiaf	Sgiwen Lostfain
Pibydd Mawn	Aderyn y Tô	Gwalch Marth	Llinos y Mynydd	Sgiwen y Gogledd
Rhostog Gynffonfraith	Boda'r Gwerni	Gwalch y Pysgod	Llurs	Siglen Lwyd
Siglen Felen	Brân Goesgoch	Gwennol y Bondo	Llwybig	Socan Eira
Telor Coed	Brân Lwyd	Gwyach Yddfddu	Llwyd y Gwrych	Sofliar
Telor Helyg	Bras y Gogledd	Gwybedog Brith	Llydandroed Llwyd	Telor Aelfelyn
Titw'r Helyg	Bras yr Eira	Gwylan Fechan	Môr-hwyaden Ddu	Telor Dartford
Titw'r Wern	Brych y Coed	Gwylan Gefnddu Fwyaf	Môr-wennol Bigddu	Telor yr Ardd
Troellwr Bach	Chwiwell	Gwylan Goesfelen	Môr-wennol Gyffredin	Tingoch Du
Turtur	Cigydd Mawr	Gwylan Gweunydd	Mulfran Werdd	Tinwen y Garn
Ydfran	Cnocell Werdd	Gwylan Môr y Canoldir	Pedrynn Drycin	Titw Barfog
	Coch y Berllan	Gwylan Sabine	Pengam	Titw Penddu
	Coegylfinir	Gwylan y Gogledd	Pibydd Cambig	Trochydd Gyddfddu
	Copog	Gwylan yr Arctig	Pibydd Coesgoch Mannog	Trochydd Gyddfgoch
	Corhedydd Richard	Gwylog	Pibydd y Dorlan	Tylluan Glustiog
	Corhwyaden	Gwylog Ddu	Pibydd Gwyrd	Tylluan Gorniog
	Crëyr Glas	Gylfinbraff	Pibydd Torchog	
	Crëyr Gwartheg	Hugan	Pibydd y Graean	
	Crëyr Mawr Gwyn	Hutan y Mynydd	Pibydd yr Aber	
	Cwtiad Traeth	Hwyaden Addfain	Pioden	
	Cwtiar	Hwyaden Benddu	Pioden Fôr	
	Dryw Penfflamgoch	Hwyaden Fwythblu	Rhegen y Dŵr	
	Ehedydd	Hwyaden Lostfain	Rhostog Gynffonddu	
		Hwyaden Lydanbig		
		Hwyaden Lygad Aur		

## Penawdau

Adar a oedd yn arfer nythu'n rheolaidd (ers 1800) sydd bellach wedi eu datgan yn ddiflanedig yng Nghymru

Rhywogaeth	Bridio mwyaf diweddar
Boda Montagu	1964
Bras Ffrainc	1968
Bras yr Yd	2007
Cigydd Cefngoch	2007
Ehedydd y Coed	2011
Eos	1981
Eryr Euriad	c.1850
Eryr Môr	c.1816
Gwyach Yddfddu*	1957
Pengam*	1906
Rhegen yr Yd	1996

\*Ar y Rhestr Ambr fel ymwelwyr rheolaidd nad ydynt yn bridio.

Adar sy'n prinbau ac sydd angen ein cymorth sydd ar y Rhestr Goch. Mae'r Rhestr Ambr yn cynnwys adar sy'n peri pryder cymedrol, a'r rhywogaethau hynny nad ydynt yn dangos prinhad cymedrol neu ddifrifol sydd ar y Rhestr Werdd.

- Mae'r dirywiad sydyn yn niferoedd yr Ydfrain sy'n nythu a'r Pibyddion Duon sy'n gaeafu yng Nghymru, a'r dirywiad yn statws byd-eang y Pedrynn Leach yn golygu eu bod wedi neidio o Wyrdd i Goch ers asesiad 2016.
- Nid yw statws llawer o adar cynefinoedd a amaethir, yn dir âr a glaswelltir, yn gwella. Mae'r Drudwy, Golfan y Mynydd, y Siglen Felen a'r Bras Melyn yn parhau i fod ar y Rhestr Goch ac nid ydynt bellach yn adar sy'n nythu mewn rhannau helaeth o Gymru.
- Mae llawer o rywogaethau'r ucheldir yn parhau i fod mewn trfferthion dybryd ar y Rhestr Goch, gan gynnwys y Rugiar Ddu, y Cudyll Bach, y Bod Tinwyn, Mwyalchen y Mynydd a Chrec yr Eithin. Mae'r rhan fwyaf o rydwyr sy'n bridio hefyd yn parhau ar y Rhestr Goch, yn arbennig y Gylfinir, y Pibydd Coesgoch a'r Gornchwigen. Mae statws sawl aderyn cân yr ucheldir sy'n nythu ar hyd a lled Cymru wedi gwaethyg: mae Corhedydd y Waun wedi symud i'r Rhestr Goch a Thinwen y Garn i'r Rhestr Ambr.
- Mae gystyngiadau yn nifer yr adar y môr sy'n bridio yn parhau. Yn aros yn sownd ar y Rhestr Goch mae'r Wylan Goesddu, yr Wylan Benddu, y Pâl a thair rhywogaeth o fôr-wenoliaid.
- Mae nifer o rywogaethau coetir, gan gynnwys Titw'r Gors, y Gwybedog Mannog, Telor yr Helyg, Telor y Coed, Titw'r Helyg a'r Gnocell Fraith Leiaf yn parhau ar y Rhestr Goch, gyda'r ddau olaf mewn perygl go iawn o ddiflannu'n gyfan gwbl o Gymru. Er syndod, mae'r Dryw Eurben wedi ymuno â'r Rhestr Goch yn dilyn dirywiad sylweddol ers 1995, ac mae Telor yr Ardd yn symud o'r Rhestr Werdd i Ambr.
- Yn agos at ein cartrefi, mae Gwenoliaid Duon wedi'u rhoi ar y Rhestr Goch a Gwenoliaid y Bondo ar Ambr am y tro cyntaf, sy'n adlewyrchu argaeledd cynefin nythu a phryfed i'w bwyta, efallai yng Nghymru ac ar draws eu taith hir i Affrica. Mae'r Llinos Werdd yn symud i'r Rhestr Goch a'r Ji-binc i Ambr, o ganlyniad i'r clefyd Trichomonosis sy'n cael ei drosglwyddo trwy orsafoedd bwydo yn ein gerddi.
- Mae dwy rywogaeth, Rhegen yr Yd a Bras yr Yd, wedi eu tynnu oddi ar y Rhestr Goch gan eu bod wedi diflannu fel adar sy'n nythu'n rheolaidd yng Nghymru. Ar y llaw arall, mae Bod y Gwerni ac Aderyn y Bwn wedi dychwelyd fel adar sy'n nythu yng Nghymru, yn dilyn dau ddegawd o adfer gwlyptiroedd.
- Mae pum rhywogaeth ar y Rhestr Ambr oherwydd bod Cymru'n gartref i fwy na 50% o boblogaeth fridio'r DU, felly mae ganddi gyfrifoldeb arbennig dros sicrhau eu dyfodol. Mae gennym ni 79% o boblogaeth y Frân Goesgoch yn y DU, felly mae'r dirywiad diweddar ym mhoblogaeth gogledd a chanolbarth Cymru yn peri gofid. Mae Cymru hefyd yn gartref i fwy na hanner poblogaeth y DU o Adar Drycin Manaw, y Gwybedog Brith, y Gwalch Marth a'r Gylfinbraff, ac, yn y gaeaf, y Pibydd Coesgoch Mannog.
- Mae gosod y Barcud Coch ar y Rhestr Werdd, aderyn a fu'n chwifio'r faner fel symbol rhagorol o waith cadwraethol yng Nghymru ers dros ganrif, yn enghraift wych o adferiad byd natur. Mae rhai rhywogaethau eraill wedi symud i'r Rhestr Werdd o Ambr o ganlyniad i adfer cynefinoedd, ond maen nhw hefyd yn arwydd o hinsawdd sy'n newid. Er enghraift, mae'r Cambig wedi ymsefydlu yng ngogledd Cymru ers 2017, yn fwyaf tebygol o ganlyniad i'r ddau ffactor uchod.
- Mae gobaith am rai rhywogaethau sy'n bwydo ar dir fferm ac yn nythu mewn cynefinoedd llaith, ymylol. Mae'r Fronfraith a Bras y Gors wedi symud i'r Rhestr Werdd o Ambr am y tro cyntaf, gan adlewyrchu adferiad rhannol eu poblogaethau yng Nghymru a ledled y DU.
- Ymhlieth y rhywogaethau eraill sy'n symud i'r Rhestr Werdd mae'r Hwyaden Wyllt, y Titw Cynffon Hir, y Coch Dan Adain a Glas y Dorlan. Mae nifer, fel Crëyr y Gwartheg a'r Crëyr Mawr Gwyn, yn cynyddu o ran nifer a chawsant eu hasesu am y tro cyntaf. Mae'r ddau bellach yn ymwelwyr cyson â Chymru ac ar fin nythu yma.

Cyhoeddir y dadansoddiad manwl yn [Milvus](#), cyfnodolyn Cymdeithas Adaryddol Cymru.

## Birds of Conservation Concern Wales - Red List

Arctic Tern  
Balearic Shearwater  
Bar-tailed Godwit  
Bewick's Swan  
Bittern  
Black Grouse  
Black-headed Gull  
Cuckoo  
Curlew  
Dunlin  
Goldcrest  
Golden Plover  
Grasshopper Warbler  
Greenfinch  
Grey Partridge  
Grey Plover  
Hen Harrier  
Herring Gull  
Honey-buzzard  
Kestrel  
Kittiwake

Lapwing  
Leach's Petrel  
Lesser Black-backed Gull  
Lesser Spotted Woodpecker  
Linnet  
Little Auk  
Little Tern  
Long-tailed Duck  
Marsh Tit  
Meadow Pipit  
Merlin  
Pochard  
Puffin  
Purple Sandpiper  
Red Grouse  
Red-breasted Merganser  
Redshank  
Ring Ouzel  
Ringed Plover  
Rook  
Roseate Tern

Shelduck  
Slavonian Grebe  
Spotted Flycatcher  
Starling  
Swift  
Tree Pipit  
Tree Sparrow  
Turtle Dove  
Velvet Scoter  
Whinchat  
White-fronted Goose  
Whitethroat  
Willow Tit  
Willow Warbler  
Wood Warbler  
Woodcock  
Yellowhammer  
Yellow Wagtail

Arctic Skua  
Bearded Tit  
Black Guillemot  
Black Redstart  
Black-necked Grebe  
Black-tailed Godwit  
Black-throated Diver  
Bullfinch  
Cattle Egret  
Chaffinch  
Chough  
Coal Tit  
Common Gull  
Common Sandpiper  
Common Scoter  
Common Tern  
Coot  
Curlew Sandpiper  
Dartford Warbler  
Dotterel  
Dunnock  
Eider

Fieldfare  
Firecrest  
Fulmar  
Gannet  
Garden Warbler  
Garganey  
Glaucous Gull  
Goldeneye  
Goshawk  
Great Black-backed Gull  
Great Grey Shrike  
Great White Egret  
Green Sandpiper  
Green Woodpecker  
Grey Heron  
Grey Phalarope  
Grey Wagtail  
Guillemot  
Hawfinch  
Hooded Crow  
Dotterel  
Dunnock  
Eider

Jack Snipe  
Knot  
Lapland Bunting  
Lesser Redpoll  
Little Gull  
Long-eared Owl  
Long-tailed Skua  
Magpie  
Manx Shearwater  
Marsh Harrier  
Mediterranean Gull  
Mistle Thrush  
Osprey  
Oystercatcher  
Pied Flycatcher  
Pintail  
Pomarine Skua  
Quail  
Razorbill  
Red-throated Diver  
Richard's Pipit  
Ruff

Sabine's Gull  
Sandwich Tern  
Scaup  
Shag  
Short-eared Owl  
Shoveler  
Skylark  
Snipe  
Snow Bunting  
Spoonbill  
Spotted Redshank  
Storm Petrel  
Teal  
Turnstone  
Twite  
Water Rail  
Wheatear  
Whimbrel  
Wigeon  
Wood Sandpiper  
Wryneck  
Yellow-browed Warbler  
Yellow-legged Gull

# Headlines

**Former regular breeders (since 1800) that are now extinct in Wales**

Species	Most recent breeding
Black-necked Grebe*	1957
Cirl Bunting	1968
Corn Bunting	2007
Corncrake	1996
Golden Eagle	c.1850
Montagu's Harrier	1964
Nightingale	1981
Red-backed Shrike	2007
White-tailed Eagle	c.1816
Woodlark	2011
Wryneck*	1906

\*Amber Listed as non-breeding, regular visitors

The Red List includes birds that are declining and need our help. The Amber List contains birds that are of moderate concern, while Green is those species that are not showing moderate or severe declines.

- The rapid decline in numbers of breeding Rooks and of wintering Purple Sandpipers in Wales, and the deteriorating global status of Leach's Petrel means that they have jumped from Green to Red since the 2016 assessment.
- The status of many birds of farmed habitats, both arable and grassland, is not improving. Starling, Tree Sparrow, Yellow Wagtail and Yellowhammer remain Red-listed and are now absent as breeding birds from large parts of Wales.
- Many upland species remain in serious trouble on the Red List, including Black Grouse, Merlin, Hen Harrier, Ring Ouzel and Whinchat. Most breeding waders also remain Red-listed, notably Curlew, Redshank and Lapwing. The status of several widespread upland songbirds has deteriorated: Meadow Pipit has moved to Red and Wheatear to Amber.
- Declines in several breeding seabirds have continued. Staying firmly in the Red are Kittiwake, Black-headed Gull, Puffin and three tern species.
- A suite of woodland species, including Marsh Tit, Spotted Flycatcher, Willow Warbler, Wood Warbler, Willow Tit and Lesser Spotted Woodpecker remain Red-listed, with the last two at real risk of being lost from Wales. Goldcrest has, surprisingly, joined the Red List following a significant decline since 1995, and Garden Warbler moves from Green to Amber.
- Close to our homes, Swifts are placed on the Red List and House Martin on Amber for the first time, reflecting the availability of nesting habitat and insect food, perhaps both in Wales and across their long journeys to Africa. Greenfinch moves to Red and Chaffinch to Amber, a result of the disease Trichomonosis shared at garden feeding stations.
- Two species, Corncrake and Corn Bunting, have been removed from the Red List as they have gone extinct as regular breeding birds in Wales. On the upside, Marsh Harrier and Bittern have returned as breeding birds in Wales, following two decades of wetland restoration.
- Five species are Amber-listed because Wales holds more than 50% of the UK breeding population, so has a particular responsibility for securing their future. We have 79% of the UK's Chough population, so recent declines in populations in north and mid Wales are a concern. Wales also holds more than half of the UK's Manx Shearwater, Pied Flycatcher, Goshawk and Hawfinch, and in winter more than half the Spotted Redshanks.
- The Green-listing of Red Kite, a standard-bearer of Welsh conservation effort for more than a century, is a stand-out example of nature recovery. Some other species have moved from Amber to Green as a result of habitat restoration but are also symptomatic of a changing climate. For example, Avocets have become established in north Wales since 2017, most likely a result of both factors.
- There is hope for some species that feed on farmland and nest in damp, marginal habitats. Song Thrush and Reed Bunting have moved from Amber to Green for the first time, reflecting the partial recovery of their populations both in Wales and across the UK.
- Other species moving to the Green List include Mallard, Long-tailed Tit, Redwing and Kingfisher. Several, such as Cattle Egret and Great White Egret, are increasing in number and were assessed for the first time. Both are now regular visitors to Wales and on the brink of nesting here.

The detailed analysis is published in [Milvus](#), the journal of the Welsh Ornithological Society.